



## **ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**26 CHWEFROR 2020**

---

**Adroddiad gan:** Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Testun:** Cofrestr Risg GwE

---

### **1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno Cofrestr Risg ddiweddaraf GwE i'r Cyd-Bwyllgor.

### **2.0 Cefndir**

2.1 Pwrpas y gofrestr risg yw ffurfioli'r broses o adnabod risgiau a chymryd camau gweithredu dilynol i'w lliniaru.

2.2 Trwy reoli risgiau'r rhanbarth yn effeithiol bydd GwE yn gallu cefnogi amcanion y rhanbarth, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

### **3.0 Ystyriaethau**

3.1 Mae Cofrestr Risg GwE yn ddogfen fyw, a chaiff ei hadolygu'n gyson. Fe'i cyflwynir i'r Cyd-bwyllgor yn flynyddol, a hefyd pan fydd risgiau newydd yn cael eu hadnabod a bod angen i'r Cyd-bwyllgor fod yn ymwybodol ohonynt.

3.2 Mae'r holl risgiau wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau. Mae'r diwygiadau i'r gofrestr wedi eu hamlygu mewn glas. Lleihawyd y risg weddilliol/gyffredinol ar gyfer risg 1.

3.3. Awgrymir hefyd tynnu risg 4 a 10.

---

Dilynwyd y matrices risg canlynol wrth bennu statws y risg.

Matrics Risg					
<b>Tebygolrwydd</b>	Bron yn sicr	Isel (4)	Canolig (8)	Uchel (12)	Uchel (16)
	Tebygol	Isel (3)	Canolig (6)	Canolig (9)	Uchel (12)
	Posib	Isel (2)	Isel (4)	Canolig (6)	Canolig (8)
	Annhebygol	Isel (1)	Isel (2)	Isel (3)	Isel (4)
		<b>Isel</b>	<b>Canolig</b>	<b>Uchel</b>	<b>Hynod uchel</b>
<b>Effaith</b>					

#### 4.0 Argymhellion

- 4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor adolygu cynnwys y gofrestr.
- 4.2 Penderfynu a oes unrhyw risgiau y dymuna'r Cyd-bwyllgor eu cyflwyno i sylw'r Cabinet perthnasol ac ati.

#### 5.0 Goblygiadau Ariannol

- 5.1 Mae rheoli risg a rheolaeth ariannol effeithiol yn helpu i fonitro costau ac yn galluogi gwerth am arian.

#### 6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

- 6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

#### 7.0 Goblygiadau Personél

- 7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

#### 8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

- 8.1 Mae Uwch Dîm Arwain GwE a Bwrdd Rheoli GwE wedi trafod cynnwys y gofrestr ac wedi diwygio'r risgiau fel y bo'n briodol.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Cofrestr Risg GwE

9.2 Risgiau i'w ddileu.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Mae sistem adolygu risgiau yn rhan sylfaenol o lywodraethu effeithiol ac yn rhan o gyfrifoldebau'r Cyd-Bwyllgor. O ystyried y proffil risg a amlygir yn y tabl mae'n bwysig fod y Cyd Bwyllgor yn rhoi sylw manwl i'r asesiad a'r ymateb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Credaf fod cofrestr risg GwE ar ffurf safonol ac yn cynnwys gwybodaeth addas. Byddaf innau, ac Adran Cyllid Gwynedd, yn darparu cefnogaeth i Reolwr Gyfarwyddwr GwE ynghylch risgiau cyllidol. Cyflwynir sylwadau pellach ar risgiau penodol, fel bo angen, ar lafar yng nghyfarfod y Cydbwyllgor ar y 26ain o Chwefror.